WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Er Budd y Cyhoedd – Gwariant ar Ymgynghorwyr Cynllunio – **Cyngor Cymuned y Mwmbwls**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1341A2019-20

Paratowyd yr adroddiad hwn sydd er budd y cyhoedd yn unol ag Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod nac unrhyw un arall yn ei gymhwyster unigol nac unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Y sawl a gyflawnodd y gwaith oedd Deryck Evans dan oruchwyliaeth Anthony Barrett.

# Cynnwys

Gan weithredu dan drefniadau wedi'u dirprwyo ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at ddiffygion o ran trefniadau caffael a llywodraethu yng Nghyngor Cymuned y Mwmbwls.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r diffygion hyn ac yn dod i'r casgliad bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi methu â sefydlu trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau ac wedi ysgwyddo gwariant sy'n gyfanswm o fwy na £21,000, sy'n anghyfreithlon yn fy nhyb i.

Rhaid i'r Cyngor ystyried yr adroddiad a'r argymhellion a wnaed, yn unol ag adran 25 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio amodol ar Ffurflen Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2017-18.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion a'r camau nesaf 6

Adroddiad manwl

Ers 2010-11 mae'r Cyngor wedi gwario dros £21,400 ar ffioedd ymgynghorwyr cynllunio gyda CDN Planning 7

Mae rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor yn annigonol 8

Nid oes gan y Cyngor gontract ffurfiol nac amodau gorchwyl ar gyfer gwasanaethau ymgynghori a ddarperir gan CDN Planning 9

Roedd gwariant a ysgwyddwyd yn 2017-18 yn uwch na'r gyllideb a neilltuwyd gan y Cyngor ac nid oedd yn cydymffurfio â'i Reoliadau Ariannol ei hun a oedd yn cyfyngu ar y gwariant y gellid ei ysgwyddo 10

Gweithredodd o leiaf un aelod o'r Cyngor yn anghyfreithlon trwy gyfarwyddo CDN Planning i wneud gwaith ymgynghori heb benderfyniad gan y Cyngor yn eu hawdurdodi i wneud hynny 12

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi fy nghasgliadau sy'n deillio o'm harchwiliad o gyfrifon Cyngor Cymuned y Mwmbwls (y Cyngor) ar gyfer blwyddyn ariannol 2017-18. Yn ystod yr archwiliad, canfûm ddiffygion arwyddocaol mewn trefniadau caffael a llywodraethu mewn perthynas â gwariant y Cyngor ar ymgynghorwyr cynllunio.

2 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan Adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf). Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn i dynnu sylw'r cyhoedd at y methiannau hyn mewn trefniadau llywodraethu a'r diffygion mewn rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor. Credaf ei bod yn bwysig bod gan y cyhoedd ymwybyddiaeth lawn a phriodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor.

3 Rwyf hefyd yn ei hystyried yn briodol rhoi cyfle i'r Cyngor ddangos y camau pwysig a gymerwyd eisoes i wella trefniadau ac i sicrhau bod y risg y bydd methiannau o'r fath yn digwydd eto'n cael ei lleihau i'r eithaf. Mae gwersi i'w dysgu nid dim ond gan y Cyngor ond gan yr holl gynghorau cymuned yng Nghymru.

## Cyngor Cymuned y Mwmbwls

4 Mae'r Cyngor yn gwasanaethu pedair ward, sef Mayals, Newton, Ystumllwynarth a West Cross yn sir Abertawe. Mae ganddo ystod o bwerau a roddwyd iddo gan y gyfraith ac mae fel arfer yn codi dros £125,000 o incwm trwy ei braesept bob blwyddyn. Mae'r Cyngor Sir yn casglu'r praesept trwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Daw cyllid y Cyngor o bwrs y wlad a chaiff ei aelodau eu hethol gan drigolion lleol. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i'r etholaeth leol.

5 Fel a nodir yn Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau), mae'r cyfrifoldeb am warchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon, yn gorwedd gyda'r Cyngor (hynny yw, yr aelodau). Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol a sicrhau bod y Cyngor yn cynnal ei fusnes yn unol â'r system honno o reolaeth fewnol.

## Fy ngwaith archwilio

6 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio fel arfer ar ffurflen flynyddol a gwblheir gan bob cyngor ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r ffurflen flynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

7 Mae gwaith archwilio wedi'i fwriadu i sicrhau fy mod yn gallu dod i gasgliad pa un a yw'r canlynol yn wir ai peidio:

- bod y cyfrifon wedi cael eu paratoi'n briodol; a

- bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

8 Gwneir gwaith archwilio ychwanegol pan fo materion yn dod i'm sylw yn ystod yr archwiliad.

9 Ym mis Gorffennaf 2018, cefais wybodaeth bod y Cyngor wedi gorwario ei gyllideb yn sylweddol mewn perthynas â gwasanaethau ymgynghori ym maes cynllunio a'i fod, trwy hynny, wedi methu â chydymffurfio â'i Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol ei hun.

10 Er mwyn deall yn llawn sut y mae'r Cyngor yn ysgwyddo gwariant ar wasanaethau ymgynghori ym maes cynllunio, rwyf wedi cynnal adolygiad o gyfrifon y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2010-11 i 2018-19. Mae fy ffocws wedi bod ar gomisiynu gwasanaethau gan CDN (Planning) Ltd (CDN Planning).

11 Mae fy nghanfyddiadau archwilio yn dangos diffygion hirsefydlog mewn trefniadau llywodraethu, rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yn y Cyngor, yn benodol mewn perthynas â chaffael, a chânt eu crynhoi isod.

# Canfyddiadau allweddol

12 Ers 2010-11, mae'r Cyngor wedi talu dros £21,400 i CDN Planning mewn perthynas â ffioedd am wasanaethau ymgynghori ym maes cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gallu darparu unrhyw dystiolaeth i ategu'r penderfyniad i benodi CDN Planning na'r telerau ac amodau sy'n sail i brynu gwasanaeth CDN Planning. Yn niffyg tystiolaeth o'r fath, nid yw'r Cyngor yn gallu dangos bod ganddo drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

13 Mae'r Cyngor wedi sefydlu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol i reoli'r modd y mae'n cyflawni ei weithgareddau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'r rheolau sefydlog hyn. Ar ben hynny, mae aelodau unigol wedi methu â chydymffurfio â rheolau sefydlog y Cyngor ac wedi ysgwyddo costau ychwanegol o fwy na £5,000 i'r Cyngor.

14 Er bod y Cyngor wedi mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol yn seiliedig ar ddogfen enghreifftiol, fy asesiad i o'r dogfennau hyn yw eu bod yn cynnwys darpariaethau afresymol ac y dylid eu hadolygu i fynd i'r afael â'r diffygion a nodir yn yr adroddiad hwn.

15 O ganlyniad i'r methiannau a ganfuwyd gennyf, rwy'n dod i'r casgliadau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi ysgwyddo gwariant sydd, yn fy marn i, yn groes i'r gyfraith; ac
- nid oes gan y Cyngor, yn fy marn i, drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

16 Caiff y canfyddiadau hyn eu hystyried mewn mwy o fanylder yng ngweddill y ddogfen hon.

# Argymhellion a’r camau nesaf

## Argymhellion

17 Fy argymhellion i ar gyfer y Cyngor yw:

| Argymhellion | |
|---|---|
| A1 | Dylai’r Cyngor adolygu ei reolau sefydlog a’i reoliadau ariannol a sicrhau bod y dogfennau hyn yn cael eu drafftio mewn ffordd sy’n glir a heb unrhyw amwysedd ac sy’n fewnol gyson. |
| A2 | Dylai’r Cyngor adolygu ei drefniadau ar gyfer penodi ymgynghorwyr i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â’i reolau sefydlog a’i reoliadau ariannol ei hun. |
| A3 | Dylai’r Cyngor sicrhau bod ganddo amodau gorchwyl priodol ar gyfer contractau sy’n nodi natur y berthynas rhwng y Cyngor a phob un o’i gontractwyr. |
| A4 | Dylai’r Cyngor sicrhau, pan wneir ceisiadau ad-hoc am gyngor ym maes cynllunio a mathau eraill o gyngor, ei bod yn glir sut y bydd costau’r cyngor yn cael eu talu o gyllidebau refeniw neu gan ddefnyddio adnoddau eraill. |

## Y camau nesaf

18 Mae adran 25 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol yn awr i’r Cyngor ystyried yr adroddiad neu’r argymhellion yn un o gyfarfodydd y Cyngor llawn o fewn un mis i ddyddiad cyhoeddi’r adroddiad gennyf fi. Yn y cyfarfod hwnnw, bydd angen i’r Cyngor benderfynu.

- a yw’r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau gweithredu;
- a yw’r argymhellion yn yr adroddiad yn mynd i gael eu derbyn; a hefyd
- pa gamau (os o gwbl) ddylid eu cymryd mewn ymateb i’r adroddiad a’r argymhellion.

19 Wedyn bydd angen i’r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb.



Anthony Barrett

Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol

Hydref 2019


# Adroddiad manwl

## Ers 2010-11 mae'r Cyngor wedi gwario dros £21,400 ar ffioedd ymgynghorwyr cynllunio gyda CDN Planning

20 Mae'r Cyngor wedi bod yn prynu gwasanaeth CDN Planning i ddarparu gwasanaethau ymgynghori ym maes cynllunio mewn perthynas ag amryw faterion cynllunio. Mae'r Cyngor wedi gwario cyfanswm o £21,426 rhwng 2010-11 a 2018-19.

### Arddangosyn 1: taliadau am wasanaethau ymgynghori ym maes cynllunio

Ers 2010-11, mae'r Cyngor wedi gwario dros £21,400 ar wasanaethau ymgynghori ym maes cynllunio gan CDN Planning




Ffynhonnell: Data Cyngor Cymuned y Mwmbwls

21 Mae CDN Planning wedi bod yn rhoi cyngor i'r Cyngor ynghylch materion megis:

- Cynllun Datblygu Lleol Abertawe
- Ardal Gadwraeth
- Morlyn llanw
- Cais cynllunio ar gyfer y pier a'r blaendraeth
- Datblygu Summerland Lane

# Mae rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor yn annigonol

22 Mae rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor yn seiliedig ar reolau sefydlog enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol (NALC).

23 Mae rheol sefydlog 18 yn rheolau sefydlog y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol bod rheoliadau ariannol y Cyngor 'yn cynnwys... polisïau caffael... gan gynnwys pennu gwerthoedd ar gyfer gwahanol weithdrefnau lle mae gwerth amcangyfrifedig contract yn llai na £25,000'.

24 Mae Rheoliad 11.1 yn rheoliadau ariannol y Cyngor yn nodi'r rheolau ar gyfer gosod contractau. Mae'r Rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo'r Cyngor yn bwriadu ymrwymo i gontract y mae ei werth rhwng £3,000 a £25,000 ar gyfer cyflenwi nwyddau, gwasanaethau neu ddeunyddiau neu gyflawni gwaith, bod y Clerc yn cael tri dyfynbris. Lle mae gwerth y nwyddau neu'r gwasanaethau a fydd yn cael eu cyflenwi neu'r gwaith a fydd yn cael ei gyflawni'n llai na £3,000, dylai'r Clerc geisio cael tri amcan bris. Nid yw rheoliadau ariannol y Cyngor yn caniatáu unrhyw eithriadau heblaw 'mewn argyfwng ar yr amod nad oes angen i'r rheoliad hwn fod yn berthnasol i gontractau sy'n ymwneud ag eitemau... ar gyfer gwasanaethau arbenigol fel a ddarperir gan gyfreithwyr, cyfrifwyr, syrfewyr ac ymgynghorwyr cynllunio'.

25 Mewn ymateb ysgrifenedig, mae'r Cyngor yn amlygu bod y 'Rheoliadau Ariannol a fabwysiadwyd gan [Gyngor Cymuned y Mwmbwls] yn seiliedig ar y Rheoliadau Ariannol Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan Un Llais Cymru... y mae rhwydd hynt i Gynghorau eu haddasu i weddu i'w gofynion hwy eu hunain. Ni wnaed unrhyw newidiadau i [Reoliad Ariannol] 11.1 gan [y Cyngor] pan gymeradwyodd ei [Reoliadau Ariannol]'.

26 Yn fy marn i, mae'r modd y mae Rheoliad 11 wedi'i ddrafftio'n creu amwysedd ac mae'n agored i gael ei ddehongli. Nid yw'n glir a yw'r Rheoliadau'n peidio â bod yn berthnasol i gontractau ar gyfer ymgynghorwyr cynllunio o gwbl gan eu bod wedi'u cynnwys yn yr eithriadau [11.1(a.ii)], ynteu yn hytrach, pa un a yw'r Rheoliadau'n peidio â bod yn berthnasol i ymgynghorwyr cynllunio mewn achos brys yn unig.

27 Mae Rheoliad 4.5 yn dynodi beth ellid ei ystyried yn achos brys ac yn datgan 'Mewn achosion o risg eithafol i ddarparu gwasanaethau'r Cyngor, gall y Clerc awdurdodi gwariant refeniw ar ran y Cyngor y mae'r Clerc yn barnu ei fod yn angenrheidiol. Mae gwariant o'r fath yn cynnwys atgyweiriadau, disodli neu waith arall… yn amodol ar derfyn o £500'.

28 Mae Rheoliad 11 fel y mae wedi'i ddrafftio'n creu sefyllfa amwys o ran perthnasedd y ddarpariaeth i ymgynghorwyr cynllunio. Byddai arfer da'n mynnu bod rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor yn eglur ac yn gyson fel bod y bwriad yn cael ei ddeall.

29 Mae'r Cyngor wedi datgan nad yw'r Rheoliadau'n berthnasol i benodi ymgynghorwyr cynllunio dan unrhyw amgylchiadau.

30 Yn fy marn i, nid yw darparu gwasanaethau proffesiynol megis cyfrifwyr, syrfewyr ac ymgynghorwyr cynllunio yn wasanaeth arbenigol ac mae nifer i gyflenwyr posibl ar gyfer gwasanaethau o'r fath. Felly, nid wyf o'r farn ei bod yn rhesymol peidio â chynnwys y gwasanaethau hyn ym mhrosesau caffael safonol y Cyngor.

31 Rwy'n nodi ar gyfer rhifyn 2019 o'r Rheoliadau Ariannol Enghreifftiol a gyhoeddwyd gan NALC, bod rheoliad 11.1 wedi cael ei ddiwygio i hepgor cyfeiriadau at ymgynghorwyr cynllunio a.y.b.

# Nid oes gan y Cyngor gontract ffurfiol nac amodau gorchwyl ar gyfer gwasanaethau ymgynghori a ddarperir gan CDN Planning

32 Mae gwybodaeth a ddarparwyd gan y Cyngor yn awgrymu ei fod wedi prynu gwasanaeth CDN Planning i roi cyngor am fater cynllunio am y tro cyntaf yn neu oddeutu 1999. Y sôn cynharaf am CDN Planning y gall y Cyngor ei adnabod yn ei gofnodion yw'r un mewn cofnodion dyddiedig Mehefin 2008. Mae cofnod 189.05 yn y cofnodion hynny'n nodi mewn perthynas â chais cynllunio, 'Sgwâr Ystumllwynarth a Hen Safle'r Chwarel, Y Mwmbwls', 'PENDERFYNWYD atgyfeirio'r cais at CDN (Ymgynghorwyr Cynllunio CCM) i'w adolygu'.

33 Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor wedi gallu darparu unrhyw dystiolaeth mewn perthynas â phenodi'r cwmni. Nid yw'n hysbys a benodwyd y cwmni yn dilyn cyflwyno dyfynbrisiau neu amcan brisiau ar gyfer prosiectau penodol ynteu a gafodd ei benodi dan gytundeb fframwaith (yn ôl y galw). Nid yw'r Clerc wedi gallu dod o hyd i unrhyw fath o gontract na chytundeb gyda CDN Planning.

34 Dros y blynyddoedd diwethaf, pan fo mater cynllunio wedi codi, mae'r Clerc wedi bod yn cysylltu â CDN Planning yn hytrach na cheisio tri dyfynbris ar gyfer y cyngor gofynnol fel sy'n ofynnol yn ôl rheolau caffael y Cyngor. Eglurodd mai'r rheswm dros hyn yw bod CDN Planning wedi datblygu arbenigedd a'i bod felly'n 'gwneud synnwyr' i'r cwmni barhau i roi cyngor heb gynnal proses gystadleuol.

35 Yn lle proses gystadleuol sy'n cynnwys darparwyr gwasanaethau eraill posibl, mae CDN Planning yn darparu dyfynbris ar gyfer y gwaith sy'n cael ei dderbyn neu ei wrthod gan y Cyngor. Ni chytunir ar unrhyw amodau gorchwyl ffurfiol. Nid yw'n glir pa mor aml y mae'r Cyngor yn gwrthod dyfynbris gan CDN Planning.

36 Mae diffyg trefniant cytundebol eglur yn creu risgiau i'r Cyngor o ran ymdrin ag unrhyw faterion gyda pherfformiad a all godi mewn perthynas â'r gwasanaethau ymgynghoriaeth gynllunio. Lle mae'r contractwr yn methu â chyflawni yn unol â'r disgwyliadau, mae'n debygol na fydd unrhyw rwymedi ar gael i'r Cyngor.

# Roedd gwariant a ysgwyddwyd yn 2017-18 yn uwch na'r gyllideb a neilltuwyd gan y Cyngor ac nid oedd yn cydymffurfio â'i Reoliadau Ariannol ei hun a oedd yn cyfyngu ar y gwariant y gellid ei ysgwyddo

37 Mae'n un o egwyddorion sylfaenol cyfraith gyhoeddus bod rhaid i gyngor gydymffurfio â'i reolau a'i reoliadau ei hun wrth gynnal ei fusnes.

## Mae rheoliadau ariannol y Cyngor yn cyfyngu ar swm y gwariant y gellir ei ysgwyddo ac yn gwneud trefniadau ar gyfer cymeradwyo'r holl wariant

38 Mae Rheoliad 4.1 yn Rheoliadau Ariannol y Cyngor yn nodi fel a ganlyn:

Gellir awdurdodi gwariant ar eitemau refeniw hyd at y symiau sydd wedi'u cynnwys ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant yn y gyllideb gymeradwy. Caiff yr awdurdod hwn ei bennu gan:

- y Cyngor ar gyfer yr holl eitemau dros £1000; ac
- un o bwyllgorau'r Cyngor y cafodd y cyfrifoldeb ei ddirprwyo iddo'n briodol ar gyfer eitemau hyd at £1000.

39 Mae Rheoliad 4.2 yn cyfyngu ar gyfanswm y symiau y gellir eu gwario dan bob pennawd yn y gyllideb ac yn nodi fel a ganlyn:

Ni ellir awdurdodi unrhyw wariant a fydd yn uwch na'r swm a ddarparwyd yn y gyllideb refeniw ar gyfer y dosbarth hwnnw o wariant ac eithrio trwy benderfyniad gan y Cyngor, neu bwyllgor y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo'n briodol. Yn ystod y flwyddyn gyllideb a chyda chymeradwyaeth y Cyngor ar ôl ystyried yn llawn y goblygiadau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gellir symud symiau sydd heb eu gwario ac sydd ar gael i benawdau eraill yn y gyllideb neu i gronfa wrth gefn a glustnodwyd fel y bo'n briodol ('trosglwyddiad').

40 Yn seiliedig ar y rheolau sefydlog hyn, byddwn yn disgwyl gweld cymeradwyaeth i wariant a throsglwyddiadau rhwng penawdau yn y gyllideb yn cael ei chofnodi'n glir yng nghofnodion y Cyngor. Fodd bynnag, nid yw cofnodion y Cyngor yn cofnodi trosglwyddiadau o'r fath yn y gyllideb.

## Mewn tair o’r chwe blynedd ddiwethaf, mae’r Cyngor wedi gorwario ei gyllideb ar gyfer gwasanaethau ymgynghori ym maes cynllunio ond nid yw wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer trosglwyddiad o fewn y gyllideb i fynd i’r afael â’r diffygion

41 Bob blwyddyn, mae’r Cyngor yn pennu ei gyllideb yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Rwyf wedi archwilio’r cyllidebau ar gyfer pob un o’r blynyddoedd ariannol rhwng 2013-14 a 2018-19. Ym mhob cyllideb ymddengys fod darpariaeth ar gyfer gwariant sy’n gysylltiedig â ‘Chynllun Cymunedol’. Mewn rhai blynyddoedd, mae diben y gyllideb yn glir. Mae Arddangosyn 2 isod yn nodi’r darpariaethau a wnaed o fewn y gyllideb lle cafodd y rhain eu datgan yn eglur.

Arddangosyn 2: Darpariaeth gyllidebol ar gyfer cyngor gan CDN Planning Ltd

Mae’r Cyngor yn neilltuo arian bob blwyddyn ar gyfer ffioedd proffesiynol sy’n gysylltiedig â gwasanaethau ymgynghori ym maes cynllunio.

| Blwyddyn ariannol | Pennawd yn y gyllideb | Cyllideb | Gwariant gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| 2013-14 | Heb ei nodi yn y gyllideb | Heb ei nodi | £3,197 |
| 2014-15 | Adolygiad o’r Cynllun Cymunedol gan CDN | £450 | £1,450 |
| 2015-16 | Cyngor proffesiynol ar y CDLl (Cynllun Datblygu Lleol) | £8,000 | £0 |
| 2016-17 | Cyngor proffesiynol ar y CDLl | £5,000 | £2,796 |
| 2017-18 | Sylwadau i’r ymchwiliad ynghylch y CDLl | £3,000 | £4,325 |
| 2018-19 | Cynllun Cymunedol (gan gynnwys Parcio) | £5,000 | £5,544[1] |

Ffynhonnell: Adroddiadau Cyngor Cymuned y Mwmbwls ar ei gyllidebau

42 Er ei bod yn glir o gofnodion y Cyngor ei fod wedi cymeradwyo’r taliadau unigol i CDN Planning, nid wyf wedi cael tystiolaeth i ddangos bod y Cyngor wedi ystyried a oedd y ffioedd a godwyd gan CDN Planning yn uwch na’r gyllideb a bennwyd ai peidio ac felly a oedd trosglwyddiad o fewn y gyllideb yn angenrheidiol.

[1] Mae hyn yn cynnwys £5,000 a dalwyd i setlo ffioedd o £6,177 a godwyd mewn perthynas â gwasanaethau a ddarparwyd gan CDN Planning ym mis Medi 2017 (am ragor o fanylion gweler isod)

43 Er bod ffioedd a godir gan CDN Planning, mewn rhai blynyddoedd, yn llai nag a gyllidebwyd ar eu cyfer, nid yw rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor yn caniatáu cario cyllidebau sydd heb eu gwario ymlaen.

44 Felly, lle mae'r Cyngor wedi gorwario yn erbyn ei gyllideb ond heb gymeradwyo trosglwyddiad o bennawd arall yn y gyllideb, mae'r Cyngor wedi methu â chydymffurfio â'i reolau ei hun.

# Gweithredodd o leiaf un aelod o'r Cyngor yn anghyfreithlon trwy gyfarwyddo CDN Planning i wneud gwaith ymgynghori heb benderfyniad gan y Cyngor yn eu hawdurdodi i wneud hynny

## O dan y gyfraith, ni all cynghorau ddirprwyo swyddogaethau i aelodau unigol

45 Mae Adran 101 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn nodi y gall y Cyngor, yn amodol ar rai cyfyngiadau a nodir gan ddeddfwriaeth arall, drefnu i unrhyw swyddogaethau ganddo gael eu cyflawni trwy ddirprwyo'r cyfrifoldeb am y swyddogaethau hynny.

46 Gall y Cyngor ddirprwyo cyfrifoldeb am ei swyddogaethau i:

- un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r Cyngor;
- un o swyddogion y Cyngor; neu
- unrhyw awdurdod lleol arall.

47 Felly, o dan y gyfraith, nid yw'n bosibl dirprwyo cyfrifoldeb am gyflawni swyddogaethau nac am wneud penderfyniadau i gynghorwyr unigol.

## Mae Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor ei hun yn gwahardd aelodau unigol rhag anfon archebion, gorchmynion neu gyfarwyddiadau a rhag ymrwymo i unrhyw gontractau ar ran y Cyngor

48 Caiff darpariaethau statudol Deddf Llywodraeth Leol 1972 eu hatgyfnerthu gan reolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor ei hun.

49 Yn ôl Rheol Sefydlog 24, oni bai ei fod wedi'i awdurdodi i wneud hynny gan benderfyniad gan y Cyngor, 'ni ddylai'r un cynghorydd... anfon archebion, gorchmynion na chyfarwyddiadau'.

50 Mae Rheoliad Ariannol 10.4 yn nodi: 'Ni chaiff aelod anfon archeb swyddogol nac ymrwymo i unrhyw gontract ar ran y Cyngor'.

## Ym mis Medi 2017, gan weithredu heb awdurdod a heb yn wybod i'r Cyngor na'r Clerc, fe gomisiynodd o leiaf un aelod o'r Cyngor wasanaethau ymgynghori gan CDN Planning a arweiniodd at godi ffioedd o £6,177 ar y Cyngor

51 Ym mis Medi 2017, cyfarwyddwyd CDN Planning Ltd i wneud gwaith ymgynghori mewn perthynas â dau fater cynllunio. Digwyddodd hyn tra'r oedd y Clerc ar gyfnod o absenoldeb ac ni ddilynwyd y broses arferol ar gyfer cyfarwyddo CDN Planning.

52 Mewn neges e-bost wedi'i chyfeirio at y Clerc, dyddiedig 30 Mai 2018, dywedodd CDN Planning fod 'yr holl waith a wnaed gan CDN Planning mewn cysylltiad â Summerland Lane a Higher Lane wedi cael ei wneud mewn ymateb i orchmynion gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Will Thomas a'i fod yn gwbl angenrheidiol er mwyn cynrychioli barn Cyngor Cymuned y Mwmbwls o ran gwrandawiad y CDLl a'r cais cynllunio'.

53 Mewn datganiad ysgrifenedig gan y Cyngor, mae'r Cyngh. Thomas yn datgan, "Rwy'n cadarnhau nad wyf fi erioed wedi 'awdurdodi' unrhyw waith gan CDN, gan fy mod yn ymwybodol nad oeddwn yn gallu gwneud hynny. Mae [CDN Planning] wedi fy enwi ar gam, ac os caf fy herio rwy'n gwbl ffyddiog na fydd unrhyw sgwrs e-bost na ffôn lle'r wyf fi wedi rhoi unrhyw gymeradwyaeth i wario arian y Cyngor".

54 Er gwaethaf yr amwysedd hwn ynglŷn â sut y rhoddwyd cyfarwyddiadau, o ganlyniad i'r gwaith a wnaed gan CDN Planning Ltd, fe gododd y cwmni anfonebau a oedd yn gyfanswm o £6,177. Wedyn fe wnaeth y Cyngor herio'r anfonebau hyn ond mae wedi cytuno i'w setlo â thaliad o £5,000 i CDN Planning Ltd. Fe wnaed y taliad hwn yn 2018-19.

55 Yn niffyg penderfyniad gan y Cyngor yn awdurdodi'r aelod(au) unigol i anfon gorchmynion at CDN Planning Ltd, yn fy marn i, fe weithredodd y cynghorydd/cynghorwyr yn anghyfreithlon a thrwy wneud hynny fe ysgwyddasant wariant a oedd yn anghyfreithlon yn fy marn i.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru